**PWYLLGOR TRWYDDEDU DIOGELWCH CYHOEDDUS**

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 15 Mehefin, 2021.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.W. Thomas (Cadeirydd); Y Cynghorydd Mrs. P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr Ms. J. Aviet, Mrs. J.E. Charles, R. Crowley, O. Griffiths, K.F. McCaffer, Mrs. J.M. Norman, Mrs. R. Nugent-Finn, S.T. Wiliam a Mrs. M.R. Wilkinson.

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr V.P. Driscoll a Mrs. A. Moore.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Mai, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Wnaeth y Cynghorydd Mrs. M.R. Wilkinson datgan fuddiant yn Eitem 4 ar yr Agenda - Cais 1/2019/TVG50 - Cofrestru Tir ym Maes y Ffynnon, Bonvilston fel Maes Tref neu Bentref o dan A15 o Ddeddf Cyffredin 2006 – gan gynghori am wrthdaro buddiannau mewn perthynas â'r Cais yn ei rôl fel Aelod Cabinet dros Wasanaethau Tai ac Adeiladu. Felly gadawodd y Cynghorydd Mrs. Wilkinson y cyfarfod pan ystyriwyd y cais.

EITEM AGENDA 4. ADRODDIAD Y RHEOLWR GWEITHREDOL, GWASANAETHAU CYFREITHIOL MEWN PERTHYNAS AG AWDURDOD COFRESTRU TIROEDD COMIN BRO MORGANNWG: CAIS 1/2019/TVG50 – COFRESTRU TIR YM MAES Y FFYNNON, BONVILSTON FEL MAES TREF NEU BENTREF O DAN A15 O DDEDDF CYFFREDIN 2006 (RGGC) –

PENDERFYNWYD – Derbyn yr argymhellion yn Adroddiad yr Arolygydd a gwrthod y Cais i gofrestru'r Tir fel Maes Tref a Phentref oherwydd bod yr ymgeisydd wedi methu bodloni'r meini prawf statudol a gynhwysir yn adran 15 (2) o'r Ddeddf.

Rheswm dros y penderfyniad

Er mwyn i'r Cyngor fel Awdurdod Cofrestru gyflawni ei ddyletswydd i benderfynu ar y Cais yn unol â'r Ddeddf a Rheoliadau Cyffredin (Cofrestru Gwyrddion Tref neu Bentref) (Trefniadau Dros Dro) (Cymru) 2007.

EITEM AGENDA 5. CAIS I'W GYDNABOD FEL SEFYDLIAD CYNRYCHIOLIADOL AR GYFER Y FASNACH TRWYDDED CERBYDAU HACNI A LLOGI PREIFAT (CAT) –

PENDERFYNWYD – Cymeradwyo'r cais gan Vale Taxis Unite i gael ei gydnabod fel sefydliad cynrychioliadol ar gyfer masnach Hackney a Llogi Preifat Bro Morgannwg.

Rheswm dros y penderfyniad

I sicrhau bod unrhyw un o sefydliadau masnach y Cyngor yn wirioneddol gynrychioliadol o aelodau masnach Cerbydau Hacni a Llogi Preifat ac nad ydynt yn gweithredu er budd unigolion yn unig.

EITEM AGENDA 6. EITHRIAD RHAG AMODAU TRWYDDED CERBYD HACNI PERTHNASOL (CAT) –

PENDERFYNWYD –

(1) Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r diwygiad i'r amodau Trwydded Cerbyd Cerbydau Hacni perthnasol mewn perthynas â lifrai, lleoliad sticeri drws adnabod yr Awdurdod Trwyddedu, arwyddion to a hysbysebu, i'r cerbydau hynny sydd wedi'u trwyddedu o dan Gynllun Peilot Fflyd Werdd Llywodraeth Cymru.

(2) Bod y pwyllgor yn rhoi awdurdod dirprwyedig i Reolwr Gweithredol y Gwasanaethau Rheoleiddio a Rennir i bennu materion o fanylion mewn perthynas â lifrai, hysbysebu a sticeri drws pe byddent yn codi yn ystod cyfnod y Cynllun Peilot Fflyd Werdd.

Rheswm dros benderfyniadau

(1&2) Annog y fasnach tacsis i gymryd rhan mewn cynllun gyda'r nod o newid i gerbydau allyriadau sero sy'n rhan o amcan Llywodraeth Cymru o gyflawni gwelliannau i ansawdd aer.